# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Chwefror 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

---

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 - 13.55)

### 6.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 48 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Chwefror 2024

### 6.7 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar Gyffuriau ac Alcohol

(Tudalennau 2 - 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 - Papur 49 - Datganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 15 Chwefror 2024

### 6.8 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

(Tudalen 4)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-24 – Papur 50 – Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 16 Chwefror 2024

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 - 14.00)

**7.14 Gohebiaeth gyda Phrif Weinidog Cymru: Cytundeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol mewn Ardaloedd y Tu Hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol**

(Tudalennau 5 - 7)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-06-24 – Papur 51 – Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru, 16 Chwefror 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-24 – Papur 52 – Gohebiaeth at Brif Weinidog Cymru, 18 Ionawr 2024

**7.15 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalen 8)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-06-24 – Papur 53 – Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Chwefror 2024

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/0047/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Chwefror 2024

Annwyl Huw, Llŷr,

I am writing in accordance with yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol i'ch hysbysu o gyfarfod Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero-Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhelir ar 13 Mawrth 2024.

Byddaf yn mynychu, ac mae disgwyl i Lywodraeth y DU gadeirio, cyfarfod Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd. Yn y cyfarfod rhithwir hwn rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar newid ymddygiadol, datgarboneiddio diwydiannol a CCUS.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymweliad Tramor Gweinidogol â Dulyn, Iwerddon** |
| **DYDDIAD** | **15 Chwefror 2024** |
| **GAN** | **Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant** |

Ar 25 a 26 Ionawr 2024, ymwelais â Dulyn i fynychu Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar Gyffuriau ac Alcohol.

Ffurfiwyd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig fel rhan o'r cytundeb aml-blaid a wnaed ym Melffast ar 10 Ebrill 1998. Mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Iwerddon; Llywodraeth y DU; Llywodraeth yr Alban; Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon; Llywodraeth Cymru; Llywodraeth Ynys Manaw; Llywodraeth Jersey a Llywodraeth Guernsey. Ei brif nod yw hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol, ymarferol ymhellach ymhlith y gwledydd sy'n cymryd rhan a darparu fforwm ar gyfer ymgynghori a chydweithredu.

Diben y cyfarfod a fynychais oedd caniatáu i'r Gweinidogion adolygu gweithgarwch diweddar ffrwd waith y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar Gyffuriau ac Alcohol a thrafod blaengynllun gwaith newydd arfaethedig. Cefais gyfle hefyd i gynnal cyfarfod dwyochrog â'r Gweinidog Hildegarde Naughton TD o Adran y Taoiseach sydd â chyfrifoldeb arbennig fel Prif Chwip y Llywodraeth; a'r Adran Iechyd sydd â chyfrifoldeb arbennig dros Iechyd y Cyhoedd, Llesiant a'r Strategaeth Gyffuriau Genedlaethol.

Ar ôl cyrraedd Dulyn mynychais, ynghyd â Gweinidogion eraill, ddigwyddiad arddangos gyda chynrychiolwyr prosiectau a sefydliadau sy'n weithgar mewn nifer o feysydd gan gynnwys atal, trais sy'n gysylltiedig â chyffuriau a gorddos.  Roedd hyn hefyd yn cynnwys trafodaeth ar 'Preparing and Responding to the emergence of Synthetic Opioids' gyda'r Athro Eamon Keenan, yr Arweinydd Clinigol ar gyfer Caethiwed yng Ngwasanaeth Iechyd Iwerddon.

Dechreuodd yr ail ddiwrnod gyda'r cyfarfod dwyochrog â'r Gweinidog Naughton lle y llwyddais i amlinellu a thrafod profiad Llywodraeth Cymru o roi bwprenorffin i'w chwistrellu (Buvidal) ar waith yn genedlaethol fel triniaeth i ddefnyddwyr heroin yng Nghymru.

Yna mynychais y cyfarfod Gweinidogol ochr yn ochr â Gweinidogion Iwerddon a Guernsey a fynychodd yn bersonol. Ymunodd Gweinidogion yr Alban, Jersey ac Ynys Manaw â ni yn rhithiol hefyd. Defnyddiwyd y cyfarfod i adolygu gweithgarwch diweddar Sector Gwaith Cyffuriau ac Alcohol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig gan gynnwys Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Chyffuriau, Effaith Covid-19 ar gamddefnyddio sylweddau a gwaith mewn perthynas â Mecanweithiau Ariannol ar gyfer Alcohol. Trafodwyd hefyd Flaengynllun Gwaith newydd arfaethedig. Daeth y cyfarfod i ben gyda chyflwyniad gan Paul Reid, Cadeirydd Cynulliad Dinasyddion Iwerddon ar Gyffuriau ar Ddemocratiaeth Gydgynghorol.

Roedd yr ymweliad â Dulyn o fudd mawr a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae'r Cyngor yn rhoi'r gallu inni rannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ac i ystyried dulliau newydd y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru ac ar draws pob gweinyddiaeth.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/50/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

16 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhelir ar 20 Chwefror 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod, sef cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ers ailsefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod rhithwir hwn yn gyfle i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol yn eu cyfanrwydd yn sgil dychweliad Gweinidogion Gogledd Iwerddon, yn ogystal â deddfwriaeth y DU a chydlyniant cymunedol. Byddaf hefyd yn tynnu sylw at yr adroddiad terfynol diweddar gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM -/00105/24

Huw Irranca-Davies
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd
seneddLJC@senedd.wales

16 February 2024

Dear Huw

I am writing in response to your letter of 18 January regarding the agreement under the United Nations Convention on the Law of the Sea on the Convention and Sustainable Use of Marine Biological Diversity of Areas Beyond National Jurisdiction (the BBNJ Treaty).

In September 2023, UK Ministers wrote to the Minister for Climate Change to notify her about the agreement. The Minister was asked to consider any implications of the Treaty on the Welsh marine zone. No further inter-Ministerial correspondence has been received about this matter.

Officials are considering the policy requirement for legislation and have notified legal services, however, capacity to consider this is limited. At this stage, the requirement for Welsh legislation is not clear, as the Welsh marine zone does not have any direct access to Areas Beyond National Jurisdiction (ABNJ). It is, therefore, unlikely that any proposals within the ABNJ would have any impact on the Welsh Marine Protected Area Network. Additionally, there is little evidence to suggest the Welsh fishing fleet operate within the ABNJ.

We have duly provided the UK Government with an official point of contact and agreed to support any progressional work when appropriate. However, beyond the initial September 2023 correspondence, further inter-governmental work has not taken place. It is not clear at this stage if the UK Government has progressed this matter further.

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

18 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

Cytundeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol mewn Ardaloedd y Tu Hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 4 Rhagfyr 2023, buom yn ystyried y Cytundeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol mewn Ardaloedd y Tu Hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol ("cytundeb BBNJ"). Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cadwraeth a defnydd cynaliadwy o amrywiaeth fiolegol forol ardaloedd y tu hwnt i awdurdodaeth genedlaethol, drwy weithredu darpariaethau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr a chydweithrediad rhyngwladol effeithiol.

Fel y gwyddoch, er bod materion tramor a chysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, nid yw dilyn a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig yn fater a gedwir yn ôl. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad, mae'r Cytundeb hefyd yn ymwneud â physgodfeydd, polisi morol a pholisi amgylcheddol, sy'n faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar yr ymgysylltu rhynglywodraethol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cytundeb, gan gynnwys rhoi diweddariadau ac ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddatblygiad y cytundeb.

Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- eich barn ynghylch y broses o roi diweddariad ac ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ar ddatblygiad y cytundeb;
- diweddariad ar ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r cytundeb; a
- gwybodaeth am unrhyw waith rhynglywodraethol sy'n digwydd, neu sydd ar y gweill, i weithredu'r cytundeb, yn ogystal â chadarnhau pa strwythurau rhynglywodraethol presennol sy'n cael eu defnyddio.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3318/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n sgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Diwygio) (Cymru) 2024 fydd yn cael eu gosod cyn hir ger bron y Senedd, yn dod o dan gwmpas Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.